**CYFARFOD Y CYNGOR** **15fed MAWRTH 2023**

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr aelodau am fethu a bod yn bresennol.

## 2. COFNODION

Cadarnhau fel cofnod cywir, gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i bwyllgorau (copiau'n amgaeedig):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 15fed Chwefror 2023 | - | Rhifau Cofnod | 110 – 125 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 15fed Chwefror 2023 | - | Rhifau Cofnod | 43 – 45 |

## 3. YSBYTY FRENHINOL ALEXANDRA– CYFARFOD GYDA CHYNRYCHIOLWYR BWRDD IECHYD BETSI CADWALADR

Ymhellach i gofnod rhif 107 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Ionawr 2023, derbyn cyflwyniad gan gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd.

## 4. ADRODDIAD Y MAER

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer yn ystod y mis diwethaf (copi yn amgaeedig).

## 5. CANSLO CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL 1AF MAWRTH 2023

Ymhellach i ganslo cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a oedd i'w gynnal ar 1af Mawrth 2023, nodi a chadarnhau'r penderfyniadau canlynol a gymerwyd gan gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol dan awdurdod dirprwyedig.

### 5.1 ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNEBAU CHWEFROR 2023 (ATODLEN A)

Taliadau a gymerwywyd gan y Cadeirydd dan Atodlen A (copi yn amgaeedig).

### 5.2 AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I RESTR CYFLENWYR CYMERADWY CHWEFROR 2023 (ATODLEN B)

Taliadau a gymeradwywyd gan y Cadeirydd dan Atodlen A (copi'n amgaeedig).

## 6. AROLWG O'R CYNLLUN TREF – HYRWYDDWR IEUENCTID

Ymhellach i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gafodd ei ganslo, ystyried penodi Hyrwyddwr Ieuenctid Cyngor Tref y Rhyl a phenderfynu ar y meini prawf perthnasol.

**7. AROLWG RISG BLYNYDDOL 2022/23 A CHYNLLUN AR GYFER 2023/24**

Ymhellach i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gafodd ei ganslo, derbyn a chymeradwyo'r adroddiad gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg (copi i ddilyn) yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan y pwyllgor yn ystod 2022/23 a'i gynllun arfaethedig ar gyfer 2023/24.

**8. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MAWRTH (ATODLEN A)**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

**9. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

**10. PENODI ARCHWILWYR MEWNOL AC ALLANOL AR GYFER 2022/23**

Derbyn adroddiad gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeedig) mewn perthynas â phenodi archwilwyr y Cyngor.

**11. MYNEGAI AMDDIFADIAD LLUOSOG CYMRU – PENODI GWEITHGOR**

**Ymhellach i Gofnod rhif 122 cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Chwefror 2023, derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig), yn rhoi cefndir i'r Mynegai WIMD ac yn awgrymu amodau cyfeirio ar gyfer sefydlu Gweithgor y Cyngor Tref.**

**12. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau canlynol, am resymau cyfrinachedd.

**13. COFNODION CYFRINACHOL**

Derbyn y cofnodion canlynol er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion ynddynt:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Is-bwyllgor Asesu Risg | - | 27ain Chwefror 2023 | - Rhifau Cofnod 25 - 31 |

**14. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.